

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol

Ymweliad Lle Rhoddwyd
Rhybudd a Dirybudd
Gwasanaeth Ymgynghorol
Beichiogrwydd Prydain
(BPAS), Y Trallwng,
Powys

20 a 24 Tachwedd 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau gwahanol neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	11
6.	Y Camau Nesaf.....	13
	Atodiad A.....	14

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canlyniadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo hyn yn briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg ar ddiwrnod yr arolygiad o ba mor dda mae gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, cyflwynir hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio pan fo'r achos o ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn ymwneud â chanlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses diffyg cydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS) wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol yn Ysbyty Coffa Victoria, Ffordd Salop, y Trallwng, Powys, SY21 7DU. Cofrestrwyd y gwasanaeth yn gyntaf ar 24 Gorffennaf 2013.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys clinigwyr, nyrsys a staff gweinyddol. Darperir amrywiaeth o wasanaethau, sy'n cynnwys y canlynol:

- Terfynu beichiogrwydd (gan gynnwys ymgynghoriad ac asesiad) ar gyfer cleifion 15 (pymtheg) oed neu hŷn.
- Ymgynghoriad a chynghor ynglŷn â therfynu beichiogrwydd ar gyfer cleifion 13 (tair ar ddeg) oed neu hŷn.
- Ymgynghoriad am fasectomi, triniaeth, a gwasanaeth dadansoddi semen dilynol ar gyfer cleifion 18 (deunaw) oed neu hŷn.
- Erthyliadau meddygol cynnar hyd at 9 (naw) wythnos o feichiogrwydd.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd ar gyfer y gwasanaethau yng Ngwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS), Powys, ar 20 Tachwedd 2015, ac archwiliad dilynol lle rhoddwyd rhybudd ar gyfer BPAS Caer ar 24 Tachwedd, 2015. Nid oedd unrhyw ddogfennau ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad dirybudd, gan y deuir â'r holl gyfarpar a dogfennau sy'n ofynnol i'r clinig o glinig Caer. Felly trefnwyd ymweliad ychwanegol, ac edrychwyd ar yr holl ddogfennau perthnasol a chafodd y staff eu cyfweld ar 24 Tachwedd 2015 yn y clinig yng Nghaer.

4. Crynodeb

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd o glinig Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS) yn y Trallwng ar 20 Tachwedd 2015. Wrth gyrraedd, dywedwyd wrthym fod y sesiwn clinig wedi'i chanslo, oherwydd hyfforddiant staff. Roedd gweinyddwr ar gael i ateb unrhyw ymholiadau posibl gan gleifion.

Anogir pob claf i lenwi ffurflen adborth ynglŷn â'r gwasanaeth. Roedd yr adborth a gafwyd o'r holiaduron cleifion yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a roddwyd. Casglwyd adborth bob tri mis yn flynyddol. Gweithredir ar y camau unioni yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd hyn yn benodol i'r safle. Cafodd clinig y Trallwng sgôr uchel ym mhob maes. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r arolwg ar gyfer clinig y Trallwng ar gael yn y canllaw i gleifion.

Gwnaethom nodi bod y dderbynfa yn fach ac yn gyfyng, ac rydym yn gofyn bod y trefniadau presennol ar gyfer y dderbynfa yn cael eu hadolygu.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd ystod gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith. Mae proses wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd amserlenni glanhau nac asesiadau risg ar gael ar adeg yr ymweliad dirybudd. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu cadw yng nghlinig Caer.

Roedd strwythur rheoli clir ar waith o ran adrodd ac atebolrwydd. Roedd yr aelod o staff y gwnaethom siarad ag ef yn gallu disgrifio ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau, a chadarnhaodd fod hyfforddiant perthnasol ar gael iddo.

Roedd trefniadau ar waith i fonitro ac adrodd ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn: diffyg canlyniadau arolwg cleifion yn y canllaw i gleifion, diffyg amserlenni glanhau, ac asesiadau risg. Dylid cynnal adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer derbynfa hefyd. Er nad yw hyn wedi arwain at gyhoeddi hysbysiad o ddifffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at AGIC yn cymryd camau, yn unol â'n proses diffyg cydymffurfio a gorfodaeth.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Anogir pob claf i lenwi ffurflen adborth ynglŷn â'r gwasanaeth. Roedd yr adborth a gafwyd o'r holiaduron cleifion yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a roddwyd. Casglwyd adborth bob tri mis yn flynyddol. Gweithredir ar y camau unioni yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd hyn yn benodol i'r safle. Cafodd clinig y Trallwng sgôr uchel ym mhob maes. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r arolwg ar gyfer clinig y Trallwng ar gael yn y canllaw i gleifion.

Gwnaethom nodi bod y dderbynfa yn fach ac yn gyfyng, ac rydym yn gofyn bod y trefniadau presennol ar gyfer derbynfa yn cael eu hadolygu.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol (Safon 2)

Roedd y gwasanaeth yn cydnabod ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ac ysgrifenedig ar gael yn y gwasanaeth. Roedd hawliau'r cleifion wedi'u nodi yng nghanllawiau'r gwasanaeth, sef 'My bpas Guide'. Roedd y canllawiau'n cynnwys yr hawl gan gleifion i ddewis p'un ai i barhau â thriniaeth neu ei gwrthod.

Roedd mynediad i'r anabl ar gael i'r clinig. Roedd y dderbynfa a'r cyfleusterau clinigol wedi'u lleoli ar un llawr ac felly roedd yn hawdd mynd atynt.

Ymgysylltu â Dinasyddion ac Adborth (Safon 5)

Roedd y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan gleifion yn rheolaidd. Roedd y canlyniadau'n cael eu casglu a'u hadolygu gan y pwyllgor llywodraethu clinigol ar gyfer y sefydliad. Nid oedd y canlyniadau ar gyfer Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain y Trallwng ar gael yn y canllaw i gleifion. Mae hyn yn ofyniad rheoliadol. Byddai'r wybodaeth hefyd yn hysbysu defnyddwyr gwasanaeth posibl o sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu a pha welliannau, os o gwbl, sydd wedi cael eu gwneud o ganlyniad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod canlyniadau o'r arolwg cleifion ar gael yn y canllaw i gleifion.

Cynllunio a Darparu Gofal (Safon 8) a Rheoli Cofnodion (Safon 20)

At ei gilydd, gwelsom fod cofnodion gofal y cleifion yn gynhwysfawr. Roeddent yn dynodi bod triniaeth wedi cael ei chytuno â'r cleifion a/neu eu gofalwyr/cynorthwyyr lle bo hyn yn briodol, ac roedd wedi'i chynllunio mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch a lles y claf. Roedd yr holl ddogfennau perthnasol ac angenrheidiol ar gael. Roedd profforma ar waith i sicrhau bod dogfennau gofynnol wedi'u cwblhau.

Gwybodaeth i Gleifion a Chydsyniad Cleifion (Safon 9)

Rhoddwyd gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r cleifion ynghylch eu gofal a'u triniaeth.

Rhoddir llyfryn cynhwysfawr o'r enw 'My bpas Guide' i bob claf yn ystod eu hapwyntiad cyntaf. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth fanwl, ac mae adran cwestiwn ac ateb hefyd. Gwnaethom nodi fod hyn yn arfer nodedig.

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn natganiad o ddiben y gwasanaeth a'r canllaw i gleifion.

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau cynhwysfawr ar gyfer casglu, cofnodi ac adolygu cydsyniad cleifion i dderbyn archwiliad a thriniaeth.

Urddas a Pharch (Safon 10)

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod gan y gwasanaeth drefniadau ar waith er mwyn amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion ac i'w trin â pharch. Roedd datganiad o ddiben y gwasanaeth yn nodi'r trefniadau ar gyfer parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Trefnwyd yr amgylchedd er mwyn amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd ystafell glinigol ar wahân ar gael fel y gellid cynnal sgysiau cyfrinachol y tu hwnt i'r ystafell aros a darparu triniaethau. Fodd bynnag, nodwyd bod derbynfa Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS) yn cael ei rhannu gyda chleifion eraill sy'n mynychu clinigau eraill. Gwnaethom nodi bod derbynfa'r clinig yn fach ac yn gyfyng; roedd y gwasanaeth meddygol ar alwad y tu allan i oriau yn ei defnyddio hefyd. Ychydig iawn o le oedd ar gael i arddangos taflenni/gwybodaeth.

Argymhelliad

Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer derbynfa. Os yn bosibl, darparu ystafell fwy er mwyn rhoi mwy o breifatrwydd i gleifion, a lle gellid arddangos taflenni a hysbysfyrddau yn ystod sesiwn clinig.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom fod y gwasanaeth yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd ystod gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith. Mae proses wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod y polisiau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd fel sy'n ofynnol.

Fodd bynnag, nodwyd nad oedd amserlenni glanhau nac asesiadau risg ar gael ar adeg yr ymweliad dirybudd. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu cadw yng nghlinig Caer.

Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd (Safon 3)

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth ynglŷn â hybu iechyd/addysg iechyd ar gael yn rhwydd i gleifion. Roedd gwybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig yn ymwneud ag atal cenhedlu, ymwybyddiaeth o ddiogelwch perthynas, cam-drin domestig, rhoi'r gorau i ysmegu, ac addysg iechyd ar gael i gleifion.

Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol (Safon 7)

Edrychwyd ar nifer o bolisiau ysgrifenedig perthnasol a oedd yn rhoi canllawiau i staff yn eu gwaith bob dydd, gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i gleifion. Roedd y polisiau hefyd yn cynnwys gofynion rheoliadol sy'n gysylltiedig ag amser. Mae hyn yn ffactor hanfodol o ran darparu dewis posibl o driniaeth/gofal i gleifion.

Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, a gwnaethant ddangos dull diogel o weithio gyda'r nod o amddiffyn diogelwch y cleifion. Mae hyfforddiant ar ofal cleifion yn cael ei ddarparu ar gyfer y staff.

Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed (Safon 11)

Roedd gan y gwasanaeth bolisi ysgrifenedig, cyfredol ar ddiogelu. Roedd hwn yn cyfeirio at y gweithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion. Mae hyfforddiant staff yn orfodol ac fe'i nodir ar gofnodion y staff pan fyddant yn ei wneud.

Atal a Rheoli Heintiau a Dadheintio (Safon 13)

Roedd gan y gwasanaeth bolisiau manwl a chyfredol ar reoli heintiau, ac roedd trefniadau ar waith i leihau'r perygl y byddai cleifion yn dal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac y gellid eu hatal. Cofnodir y llwybr gofal a ddefnyddiwyd ar gyfer dadheintio mewn perthynas â'r gweithdrefnau yng nghofnodion y cleifion.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei archwilio bob tri mis a gweithredir ar y canlyniadau yn ôl y gofyn. Pan fo'n ofynnol, caiff cynlluniau gweithredu eu cyflwyno, ac mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithredu arnynt. Roedd hyn yn rhoi modd i'r gwasanaeth fesur cydymffurfiaeth â'r safonau rheoli heintiau a monitro canlyniadau yn rhan o'r broses barhaus o wella.

Roedd offer diogelu personol ar gael er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn y mannau clinigol ac yn y toiledau, er mwyn lleihau croes-heintio.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus, a gwastraff nad yw'n beryglus, a gynhyrchir gan y clinig.

Yn ystod taith o gwmpas y safle, gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus. Mae staff yr ysbyty'n gwneud gwaith glanhau. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cadarnhau pa mor aml roedd hyn yn cael ei wneud, ac nid oeddem yn gallu canfod pryd y cafodd y carped yn swyddfa'r dderbynfa a rennir ei lanhau ddiwethaf. Roedd y trefniadau glanhau a'r rhestrau gwirio'n cael eu cadw yn safle Caer.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod amserlenni glanhau ar gael yn safle'r Trallwng.

Trefniadau Cynllunio ar gyfer Argyfwng (Safon 4) a Rheoli Meddyginiaethau (Safon 15)

Mae polisi wedi'i sefydlu ar gyfer y staff er mwyn ymateb i argyfwng claf (llewygu).

Roedd gan staff fynediad at gyffuriau brys ac offer dadebru pe bai claf yn cwmpo. Roedd y cofnodion hyfforddi'n dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd yn rheolaidd.

Rheoli Risg ac Iechyd a Diogelwch (Safon 22)

Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant angenrheidiol yn ystod eu cyfnod sefydlu, ac yna'n rheolaidd. Mae hyn yn cael ei gofnodi a'i gadw yng nghofnodion y staff.

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i ddynodi peryglon ac i leihau'r risg o niwed. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw asesiadau risg ysgrifenedig ar gael ar adeg yr arolygiad dirybudd. Roedd y wybodaeth yn cael ei chadw yng nghlinig Caer. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r wybodaeth hon ar gael pan fo'r clinig yn weithredol er mwyn hysbysu ac arwain staff fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, roedd y daflen yn ymwneud â rhaglen sefydlu'r staff wedi'i chwblhau, ac roedd yn cyfeirio at faterion iechyd a diogelwch, hyfforddiant tân, diogelwch, a champau gweithredu a nodwyd i reoli a lliniaru risg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod asesiadau risg ar gael yn safle'r Trallwng.

Ymdrin â Phryderon a Rheoli Digwyddiadau (Safon 23)

Roedd gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn gyfredol ac ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon a chwynion.

Roedd manylion y weithdrefn ar gael i gleifion yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, sef 'My bpas Guide', ac ar safle mewnrwyd Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS).

Mae proses ar gyfer cofnodi cwynion ysgrifenedig (ffurfiol) a dderbynnir. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y clinig wedi derbyn unrhyw gwynion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli clir ar waith o ran adrodd ac atebolrwydd. Roedd yr aelod o staff y gwnaethom siarad ag ef yn gallu disgrifio ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau, a chadarnhaodd fod hyfforddiant perthnasol ar gael iddo.

Roedd trefniadau ar waith i fonitro ac adrodd ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd (Safon 1)

Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda a bod nifer o bolisiau perthnasol ar waith gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i gleifion.

Roedd y gwasanaeth wedi cyflwyno datganiad o ddiben cyfredol a oedd yn nodi strwythur y sefydliad a'r llinellau adrodd ar gyfer staff yn eglur. Roedd rheolwr cofrestredig profiadol yn y swydd, a dangosai ddealltwriaeth glir o'i rôl a'i chyfrifoldebau hi.

Roedd nifer cynhwysfawr a manwl o bolisiau ysgrifenedig wedi'u sefydlu, ac mae proses ar gyfer diweddarau a chynnal adolygiad o'r rhain yn rheolaidd.

Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Gwella Ansawdd (Safon 6)

Mae'r gwasanaeth yn cynnal rhaglen dreigl o archwiliadau er mwyn monitro a nodi meysydd i'w gwella.

Mae'r rhain yn cynnwys archwilio dogfennau, ymgysylltu â chleifion, a rheoli heintiau.

Roedd adroddiadau ysgrifenedig o ymweliadau (er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir) gan unigolyn/unigolion penodedig ar gael, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau.

Recriwtio i'r Gweithlu ac Arferion Cyflogaeth (Safon 24)

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau ar waith ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd gan y practis bolisi ysgrifenedig ar recriwtio staff. Cynhaliwyd adolygiad o sampl o ffeiliau staff a ddewiswyd ar hap. Roedd tystiolaeth yn yr holl ffeiliau bod archwiliadau recriwtio wedi cael eu cwblhau, ac roedden nhw'n cynnwys y

wybodaeth a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.

Roedd cofnodion staff yn dangos rhaglen hyfforddi staff oedd yn cefnogi staff i fodloni eu hanghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y cofnodion hyfforddiant staff yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Cynhelir arfarniadau staff bob blwyddyn er mwyn canfod anghenion o ran hyfforddiant a datblygiad.

6. Y Camau Nesaf

Un o ganlyniadau'r arolygiad hwn yw bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran ansawdd profiad y claf a chyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y bydd y gwelliannau a nodwyd ar gyfer Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS) y Trallwng yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain y Trallwng

Dyddiad yr Arolygiad: 20 a 24 Tachwedd 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod canlyniadau o'r arolwg cleifion ar gael yn y canllaw i gleifion.	Rheoliad 7 (1) (e) Safon 5	Bydd canlyniadau'r arolwg cleifion yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS) yn yr ystafell aros. I gael eu harddangos yn ystod sesiwn clinig.	Christopher Plummer	Ar unwaith
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Rhaid i'r personau cofrestredig	Rheoliad 15	Darperir gwasanaethau glanhau gan	Christopher	Eisoed ar

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	wneud trefniadau addas i sicrhau bod amserlenni glanhau ar gael yn safle'r Trallwng.	(8) (c) Safon 13	y safle cartref. Mae'r amserlen lanhau ar gyfer Shropdoc (safle cartref) wedi'i chynnwys gyda'r 'Ardaloedd cyffredinol, Shropdoc ac ardal llifddor'. Mae'n cael ei chadw mewn daliwr persbecs sy'n weladwy i gleientiaid Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS) yng nghoridor yr Adran Cleifion Allanol, ac mae'n ganolog i'r tair ardal y mae'r amserlen ar eu cyfer. Mae'r holl amserlenni glanhau eraill y tu allan i ddrysau'r ystafelloedd priodol.	Plummer	waith
10	Rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod asesiadau risg ar gael yn safle'r Trallwng.	Rheoliad 15 (2) Safon 22	Mae asesiadau risg ar gael ar bapur ac ar gyfrifiadur yn y safle. Mae'r aelod o staff oedd yn yr uned ar ddiwrnod yr arolygiad bellach yn gwybod ble maent.	Christopher Plummer	Eisoed ar waith
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
	Nid oes angen gwneud gwelliannau.				

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (printiwch):.....ANN-MARIE CORRIE.....

Teitl:.....RHEOLWR YR UNED DRINIAETH.....

Dyddiad:27.01.16.....